


Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein

Crynodeb o'n penderfyniadau

Cyhoeddwyd 24 Ebrill 2025



1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn grynodedb o benderfyniadau Ofcom ar amddiffyn plant ar-lein. Mae wedi'i gynllunio i helpu pobl i ddeall ein penderfyniad ar lefel uchel. Darllenwch y Datganiad Amddiffyn Plant Rhag Niwed Ar-lein llawn am ragor o fanylion.

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein y DU 2023 (y Ddeddf) yn gwneud llwyfannau – gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, peiriannau chwilio a phornograffi – yn gyfreithiol gyfrifol am gadw pobl, yn enwedig plant, yn ddiogel ar-lein. Mae gan y gwasanaethau hyn ddyletswyddau newydd i amddiffyn defnyddwyr yn y DU drwy asesu risgiau o niwed a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU, rôl Ofcom yw darparu codau a chanllawiau i gefnogi gwasanaethau rheoleiddiedig i gydymffurfio â'u dyletswyddau a darparu bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU. Mae'r fframwaith diogelwch ar-lein wedi'i nodi yn ein [map ffordd](#).

Sicrhau lefel uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion ar-lein yw un o amcanion y Ddeddf. Mae'r penderfyniadau a nodir yn y datganiad hwn yn ffurfio'r sylfeini ar gyfer creu bywyd mwy diogel ar-lein i blant yn y DU. Maent yn adeiladu ar y rheolau yr ydym eisoes wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn pob defnyddiwr, gan gynnwys plant, rhag niwed anghyfreithlon fel amddiffyn plant rhag cael eu hudo a'u camfanteisio'n rhywiol. Maent hefyd yn ategu'r rheolau sydd eisoes ar waith i atal plant rhag dod ar draws pornograffi ar-lein. Rydym eisoes wedi dechrau sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau newydd hyn, gan gynnwys agor rhaglenni gorfodi.

Mae plant yn y DU yn elwa ar y cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig ac yn mwynhau bod ar-lein am sawl rheswm, gan gynnwys dysgu, cyfeillgarwch ac adloniant. Ond mae ein hasesiad o achosion ac effeithiau niwed i blant yn dangos i ni fod y rhan fwyaf o blant wedi dod ar draws cynnwys a gweithgaredd niweidiol ar-lein. Gall hyn gael effeithiau difrifol ar eu lles meddyliol a chorfforol ac mae wedi bod yn gysylltiedig â marwolaethau rhai plant.

Mae ein penderfyniadau yn adlewyrchu'r hyn rydyn ni'n ei wybod o ymchwil a thystiolaeth am risgiau i blant a'r hyn sy'n gweithio i'w cadw'n ddiogel. Mae'r Gofrestr Risgiau Plant (Cofrestr Plant) yn dwyn ynghyd oddeutu 550 o ffynonellau tystiolaeth unigol, gan gynnwys ffynonellau newydd a awgrymwyd gan randdeiliaid yn eu hymatebion i'n hymgyngoriad. Trwy ein hymchwil, rydym wedi clywed gan dros 27,000 o blant a 13,000 o rieni. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n fanwl â phlant drwy [raglen ymgysylltu trafodol](#) a oedd yn cynnwys gweithdai ymgynghori a chyfweliadau â phlant ledled y DU. Rydym wedi adlewyrchu eu barn yn ein penderfyniadau ochr yn ochr â rhai'r cwmnïau, ymgrychwr diogelwch plant a sefydliadau eraill a ymatebodd i'n hymgyngoriad.

Beth mae'n rhaid i wasanaethau ar-lein ei wneud i amddiffyn plant

Asesu a yw plant yn debygol o gael mynediad i'w gwasanaeth – neu ran ohono.

Dylai pob darparwr gwasanaeth bellach fod wedi cynnal asesiadau mynediad plant i benderfynu a yw plant yn debygol o gael mynediad at eu gwasanaethau ac a ydynt o fewn cwrddas dyletswyddau diogelwch y plant. Y dyddiad cau ar gyfer gwasanaethau i gynnal yr asesiad hwn oedd 16 Ebrill 2024.¹

¹ [Gweler y Datganiad: Sicrwydd Oedran a Mynediad i Blant - Ofcom](#)

Rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o wasanaethau nad ydynt yn defnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol o fewn cwrmpas y pecyn rheoleiddio yr ydym yn ei gadarnhau heddiw.

Cwblhau asesiad risg plant i nodi'r risgiau y mae eu gwasanaeth(au) yn eu peri i blant.

Mae gan wasanaethau o fewn cwrmpas dyletswyddau diogelwch plant hyd at 24 Gorffennaf 2025 i gwblhau a chofnodi asesiadau risg eu plant, [fel y nodir yn ein Canllawiau Asesu Risg Plant](#). Bydd hyn yn ategu'r [asesiadau risg cynnwys anghyfreithlon](#) y mae darparwyr gwasanaethau eisoes wedi'u cwblhau.

Fel rhan o asesiadau risg eu plant, rhaid i ddarparwyr asesu'r risg o niwed i blant a gyflwynir gan gynnwys sy'n niweidiol i blant, gan gynnwys cynnwys heb ei ddynodi. Rhaid iddynt hefyd ystyried plant mewn gwahanol grwpiau oedran fel rhan o'u hasesiad.

Mae ein [Proffiliau Risg Plant](#) yn helpu gwasanaethau i ddeall y mathau o wasanaethau a'r swyddogaethau a all fod yn arbennig o beryglus i blant. Mae'r [Gofrestr Plant](#) yn darparu gwybodaeth am sut mae risgiau o niwed i blant yn amlygu ar-lein; a bydd ein Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant yn cefnogi darparwyr gwasanaethau i ddehongli'r gwahanol gategorïau o gynnwys niweidiol.

Gweithredu mesurau diogelwch i liniaru'r risgiau i blant.

Ar ôl cwblhau asesiadau risg eu plant, rhaid i wasanaethau weithredu mesurau diogelwch i liniaru'r risgiau i blant a nodwyd yn yr asesiadau hyn. Mae'r Codau Amddiffyn Plant (y Codau) yn cynnwys mesurau yr ydym yn disgwyl i wasanaethau eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau i blant, sy'n cynnwys:

- **Archwiliadau oedran cadarn:** Ar hyn o bryd, mae'n llawer rhy hawdd i blant gael gafael ar gynnwys niweidiol ar-lein. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau sydd â'r risg fwyaf ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i ddiogelu plant rhag y cynnwys hwn. Os oes gan wasanaethau ofynion oedran sylfaenol ac nad ydyn nhw'n defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i atal plant dan yr oedran hwnnw rhag defnyddio'r gwasanaeth, dylen nhw dybio bod plant iau ar eu gwasanaeth a chymryd camau priodol i'w hamddiffyn rhag niwed.
- **Algorithmau mwy diogel:** Ar hyn o bryd, argymhellion personol yw prif lwybr plant i ddod ar draws cynnwys niweidiol ar-lein. Bydd disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi nodi risg ganolig neu uchel o gynnwys o'r fath ffurfweddu eu halgorithmau i sicrhau nad yw plant yn gweld y cynnwys mwyaf niweidiol a'u bod yn cymryd camau priodol i'w diogelu rhag cynnwys niweidiol arall.
- **Cymedroli effeithiol.** Rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth fod â systemau cymedroli cynnwys i weithredu'n gyflym yn erbyn cynnwys sy'n niweidiol i blant pan fyddan nhw'n dod yn ymwybodol ohono.
- **Adroddiadau a chwynion gan ddefnyddwyr.** Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod eu prosesau'n hawdd eu cyrraedd a'u defnyddio, yn gwella tryloywder, ac yn cymryd camau priodol pan fydd defnyddwyr yn rhoi gwybod am gynnwys niweidiol.
- **Telerau gwasanaeth.** Byddwn yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau wneud yn siŵr bod eu telerau ac amodau yn glir ac yn hawdd i blant eu deall.
- **Mwy o ddewis a chefnogaeth i blant.** Yn ogystal â phrosesau adrodd a chwyno hawdd eu defnyddio, mae angen offer a chymorth ar blant i'w helpu i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefnogol i blant a allai fod wedi dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol, a gosodiadau diogelwch diofyn ar gyfer y gwasanaethau chwilio mwyaf. Disgwylir i blant gael y dewis i dderbyn neu wrthod gwahoddiadau i sgysiau grŵp lle gallan nhw ddod ar draws cynnwys niweidiol.

- **Llywodraethu ac atebolrwydd cryf.** Mae cadw plant yn ddiogel yn dechrau gyda llywodraethu da. Rydym yn argymhell bod pob gwasanaeth yn enwi unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelwch plant. Mae'r mesurau eraill yn cynnwys adolygiad blynyddol gan uwch gorff o'r holl weithgareddau rheoli risg sy'n ymwneud â diogelwch plant; a Chod Ymddygiad i weithwyr sy'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Mae'r pecyn hwn o ganllawiau a mesurau diogelwch yn gam mawr ymlaen wrth greu bywyd mwy diogel ar-lein i blant yn y DU.

Gall gwasanaethau gymryd mesurau amgen i amddiffyn plant rhag y rhai a nodir yn y Codau. Os ydynt yn gwneud hynny, rhaid iddynt fod yn barod i ddangos i ni fod y dewisiadau maen nhw wedi'u gwneud yn bodloni dyletswyddau diogelwch y plant.

Ni all gwasanaethau wrthod cymryd camau i amddiffyn plant oherwydd ei fod yn rhy ddud neu'n anghyfleus – mae amddiffyn plant yn flaenoriaeth. Bydd yn rhaid i bob gwasanaeth, hyd yn oed y lleiaf, weithredu.

Diweddarau Codau a chanllawiau

Dyma fersiwn gyntaf o'n fframwaith i amddiffyn plant, a byddwn yn parhau i adolygu ac ailadrodd ein dull o ysgogi profiadau mwy diogel sy'n briodol i oedran ar-lein. Rydym yn disgwyl diweddarau ein rheoliad wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg ar risgiau sy'n dod i'r amlwg i blant a'r mesurau a fydd orau yn cadw plant yn ddiogel ar-lein. Byddwn yn craffu ar asesiadau risg plant darparwyr gwasanaeth ac yn cynnal ymgysylltiad agos â gwasanaethau i adeiladu ein dealltwriaeth o sut maent yn bodloni dyletswyddau diogelwch plant. Byddwn yn parhau i adeiladu ein sylfaen dystiolaeth, gan dynnu ar ffynonellau gan gynnwys ein hymchwil barhaus gyda phlant a'n hadroddiad ar ddefnydd ac effeithiolrwydd sicrwydd oedran, y byddwn yn ei gyhoeddi'r haf nesaf.

Camau nesaf


Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant bellach gwblhau asesiadau risg plant erbyn 24 Gorffennaf 2025.

O 25 Gorffennaf 2025, cyn belled â bod y Codau yn cwblhau'r broses Seneddol, bydd angen i ddarparwyr gymryd y camau a nodir yn y Codau neu ddefnyddio mesurau effeithiol eraill i amddiffyn plant. Byddwn yn ehangu ein pecyn cymorth digidol ar gyfer darparwyr gwasanaeth i'w cefnogi i gwblhau asesiadau risg plant a chydymffurfio â dyletswyddau diogelwch eu plant.

2. Yr hyn yr ydym wedi ei benderfynu

Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein

- 2.1 Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith rheoleiddio newydd sy'n anelu at wneud y byd ar-lein yn fwy diogel i bobl yn y DU. Mae sicrhau gwell amddiffyniadau i helpu i gadw plant yn fwy diogel ar-lein yn un o brif amcanion y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod y dyletswyddau a osodir ar wasanaethau rheoledig yn anelu at sicrhau eu bod yn ddiogel trwy ddyluniad, ac wedi'u cynllunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n darparu safon uwch o amddiffyniad i blant nag i oedolion.
- 2.2 Mae'r Ddeddf yn nodi gofynion ar [gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio](#) i sicrhau eu bod yn amddiffyn plant ar-lein, gan gynnwys:
- cynnal **asesiadau mynediad plant** i asesu a all plant gael mynediad at eu gwasanaeth(au) neu ran ohono;
 - os oes angen, cynnal **asesiad risg plant** i asesu'r risgiau y mae eu gwasanaeth(au) yn eu peri i blant;
 - **cymryd mesurau diogelwch** i fynd i'r afael â risgiau ac amddiffyn plant ar-lein; a
 - **cadw risgiau a mesurau diogelwch dan adolygiad**.



Cynnwys sy'n niweidiol i blant

- 2.3 Wrth gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch plant, mae angen i ddarparwyr gwasanaeth ystyried gwahanol fathau o gynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae'r Ddeddf yn diffinio 'cynnwys sy'n niweidiol i blant' fel un sy'n dod i dri chategori eang.

Categori cynnwys	Disgrifiad byr
Cynnwys â blaenoriaeth sylfaenol sy'n niweidiol i blant	Cynnwys Pornograffig, a chynnwys sy'n annog, hyrwyddo neu ddarparu cyfarwyddiadau ar gyfer hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta.
Cynnwys blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant	Cynnwys sy'n sarhaus neu'n annog casineb, cynnwys bwlio, a chynnwys sy'n annog, hyrwyddo, neu ddarparu cyfarwyddiadau ar gyfer trais, styntiau a heriau peryglus, a hunan-weinyddu sylweddau niweidiol.
Cynnwys heb ei ddynodi sy'n cyflwyno risg sylweddol o niwed i blant	Mathau o gynnwys nad ydynt yn dod o fewn y ddau gategori uchod sy'n cyflwyno "risg sylweddol o niwed sylweddol i nifer sylweddol o blant yn y Deyrnas Unedig".

- 2.4 Mae ein [Cofrestr Risgiau Plant](#) yn nodi sut mae risgiau o niwed i blant yn amlygu ar-lein ac mae ein [Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant](#) yn nodi enghreifftiau o ba fathau o gynnwys y mae Ofcom yn ei ystyried i fod, neu beidio â bod yn niweidiol i blant. Gellir defnyddio'r ddwy ddogfen hefyd fel deunydd cyfeirio.

Codau a chanllawiau Amddiffyn Plant

- 2.5 Mae'r Codau a'r canllawiau wedi'u cynllunio i gefnogi gwasanaethau ar-lein i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf.
- 2.6 Yn [Cyfrol 2](#) rydym yn esbonio sut y gwnaethom ddod i'n penderfyniadau mewn perthynas â'r Gofrestr Risgiau Plant, Proffiliau Risg Plant a Chanllawiau Cynnwys Niweidiol i Blant. Mae ein [Cofrestr Risgiau Plant](#) yn darparu gwybodaeth am sut mae risgiau o niwed i blant yn amlygu ar-lein; a bydd ein [Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant](#) yn cefnogi darparwyr gwasanaethau i asesu'r risg o niwed i blant a dehongli'r gwahanol gategoriâu o gynnwys niweidiol.
- 2.7 Mae'r [Canllawiau Asesu Risg Plant, sy'n ymgorffori'r Proffiliau Risg Plant](#), yn cefnogi darparwyr gwasanaethau i asesu'r risg o niwed i blant a gyflwynir gan gynnwys sy'n niweidiol i blant ar eu gwasanaeth(au). Mae [Cyfrol 3](#) yn nodi ein dull o lywodraethu a rheoli risg a'r penderfyniadau sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Canllawiau Asesu Risg i Blant.
- 2.8 Yn [Cyfrol 4](#), nodwn y penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud mewn perthynas â'r Codau. Mae dau God, un ar gyfer [gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr](#), ac un [ar gyfer gwasanaethau chwilio](#).
- 2.9 Mae'r angen i sicrhau bod amddiffyniad plant ar-lein wrth wraidd ein penderfyniadau. Mae'r Codau yn cydbwysu'r angen i amddiffyn plant gyda'r manteision o fod ar-lein. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr effaith bosibl ar hawliau plant ac oedolion, gan gynnwys eu hawliau i ryddid mynegiant a phreifatrwydd, wrth benderfynu pa fesurau sy'n briodol ac yn gymesur, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf a Deddf Cyfathrebu 2003, wrth gyrraedd ein penderfyniadau rydym wedi pwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys yr effaith a'r gost i wasanaethau, i sicrhau bod y mesurau'n gymesur.

Asesiadau risg plant

Rydym wedi cyhoeddi'r Canllawiau Asesu Risg Plant ar sut y dylai gwasanaethau gwblhau asesiadau risg eu plant. Mae ein penderfyniadau mewn perthynas â'r Canllawiau Asesu Risg Plant wedi'u nodi yng Nghyfrol 3.

- 2.10 Bydd yn ofynnol i wasanaethau sy'n debygol o gael ei ddefnyddio gan blant gwblhau asesiad risg plant. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'r risgiau i blant sy'n deillio o'u gwasanaeth, fel y gallant weithredu'r mesurau angenrheidiol i reoli a lliniaru'r risgiau hynny.
- 2.11 Mae ein Canllawiau Asesu Risg Plant yn nodi proses asesu risg pedwar cam i ddarparwyr gwasanaethau ei dilyn. Mae hyn yn golygu bod darparwyr yn: (i) deall cynnwys sy'n niweidiol i blant y mae angen iddynt ei asesu yn asesiad risg plant; (ii) asesu'r tebygolrwydd ac effaith plant yn dod ar draws cynnwys sy'n niweidiol ar eu gwasanaeth; (iii) penderfynu pa fesurau i'w cymryd i liniaru risg i blant; ac (iv) adrodd ar, adolygu a diweddarau'r asesiad risg plant. Mae hefyd yn ofynnol i wasanaethau ystyried Proffiliau Risg Plant Ofcom, sy'n nodi ffactorau risg perthnasol ar gyfer gwasanaethau ar-lein.
- 2.12 Rydym wedi ceisio alinio'r Canllawiau Asesu Risg Plant â'r canllawiau Asesu Risg Anghyfreithlon lle bo hynny'n bosibl. Rhaid i wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant gynnal asesiad risg plant yn ogystal â'u hasesiad risg o gynnwys anghyfreithlon.
- 2.13 Mae'r canllawiau yn esbonio beth yw asesiad risg plant 'addas a digonol', a sut y dylai darparwr gwasanaeth gofnodi asesiad risg blant. Mae'n ofynnol bod darparwyr gwasanaethau yn cadw asesiadau risg eu plant yn gyfredol, ac rydym wedi gosod disgwyliadau clir ynghylch sut y gall darparwyr gyflawni'r ddyletswydd hon. Rydym hefyd wedi darparu canllawiau ar yr hyn sy'n gyfystyr â newid sylweddol fel sbardun i gynnal asesiad risg plant newydd.
- 2.14 Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid, rydym wedi cadarnhau'r dull asesu risg pedwar cam ac wedi egluro rhai agweddau ar y canllawiau, gan gynnwys sut y dylai darparwyr gwasanaethau nodi ac asesu'r risg o niwed a gyflwynir i blant gan gynnwys heb ei ddynodi ar eu gwasanaeth. Rydym hefyd wedi egluro ein disgwyliadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau ynghylch y ddyletswydd i asesu eu sylfaen defnyddwyr, ac i roi ystyriaeth ar wahân i blant mewn gwahanol grwpiau oedran, gan nodi perthnasedd gwahanol fathau o dystiolaeth ar oedran defnyddwyr.

Gweithredu mesurau i amddiffyn plant ar-lein

Mae'r Codau'n nodi'r mesurau y gall darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a pheiriannau chwilio eu cymryd i helpu i gadw plant yn ddiogel.

- 2.15 Mae'n ofynnol gan y Ddeddf i ddarparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael ei ddefnyddio gan blant ddefnyddio mesurau diogelwch cymesur i'w cadw'n ddiogel. Mae'r Codau yn darparu set o fesurau diogelwch y gall gwasanaethau ar-lein eu cymryd i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Gall darparwyr gwasanaethau benderfynu cydymffurfio â'u dyletswyddau drwy gymryd mesurau gwahanol i'r rhai yn y Codau. Fodd bynnag, bydd angen iddynt allu dangos eu bod yn sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau diogelwch y

plant a chadw cofnod yn esbonio sut maen nhw wedi gwneud hyn, gan esbonio sut mae dyletswyddau perthnasol wedi'u bodloni.

- 2.16 Mae'r Codau'n adeiladu ar y [Codau Cynnwys Anghyfreithlon](#), sydd eisoes mewn grym, ac yn amddiffyn pob defnyddiwr, gan gynnwys plant, rhag niwed anghyfreithlon megis amddiffyn plant rhag cael eu hudo a'u camfanteisio'n rhywiol. Maent hefyd yn ategu'r [rheolau ar gyfer gwasanaethau pornograffi 'Rhan 5'](#), gan gynnwys y gofyniad i gael sicrwydd oedran hynod effeithiol ar waith i atal plant rhag cael mynediad at bornograffi.
- 2.17 Nid oes un mesur y gall darparwyr ei gymryd i amddiffyn plant ar-lein yn ddigonol. Mae angen i fesurau diogelwch weithio gyda'i gilydd ar draws systemau a phrosesau gwasanaethau i sicrhau eu bod yn ddiogel trwy ddyluniad a bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys niweidiol. Rydym yn cynnwys set o dros 40 o fesurau diogelwch yn yr iteriad cyntaf o'r Codau a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau profiadau mwy diogel i blant ar-lein. Mae'r mesurau hyn yn adeiladu ar ddyletswyddau asesu risg y plant drwy egluro sut y dylai darparwyr fynd i'r afael â'r risgiau a berir gan eu gwasanaethau. Yn yr iteriad cyntaf o'r Codau, rydym yn cynnwys mesurau yn y meysydd a nodir yn y paragraffau canlynol.

Llywodraethu ac atebolrwydd

- 2.18 Rydym yn nodi saith mesur Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a pheiriannau chwilio. Dylai pob gwasanaeth gael person a enwir sy'n atebol am ddiogelwch plant. Bydd y mesurau hyn yn ymgorffori atebolrwydd, goruchwyliaeth, annibyniaeth, tryloywder ac eglurder pwrpas yng ngweithrediadau darparwyr. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gael strwythurau a phrosesau llywodraethu a dylunio sefydliadol sy'n gweithio'n dda. Dylai hyn alluogi darparwyr i ddeall a rhagweld risgiau yn well, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd risgiau o niwed i blant yn cael eu blaenoriaethu'n briodol a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau strategol. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth i liniaru risgiau yn briodol.

Telerau gwasanaeth a datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd

- 2.19 Rydym yn cynnwys tri Mesur Termau Gwasanaeth a Datganiadau sydd ar Gael i'r Cyhoedd. Nod dau o'r rhain yw anelu at sicrhau bod telerau a datganiadau gwasanaethau yn glir ac yn hygyrch i blant. Bydd y mesurau hyn yn helpu plant a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt i ddeall y darpariaethau sydd ar waith i'w hamddiffyn a'u galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Rydym hefyd yn argymhell mesur pellach ar gyfer gwasanaethau Categori 1 a Chategori 2A sy'n esbonio y dylent grynhoi canfyddiadau asesiad risg eu plant yn eu telerau a'u datganiadau. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn dryloyw gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr am y risgiau y mae eu gwasanaethau'n eu peri i blant.

Sicrwydd oedran

- 2.20 Rydym yn nodi saith mesur Sicrwydd Oedran ar gyfer darparwyr y gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mwyaf peryglus. Bydd y mesurau hyn yn galluogi darparwyr i benderfynu pa un o'u defnyddwyr sy'n oedolion fel y gallant gymryd camau i amddiffyn plant wrth barchu hawliau oedolion i gael mynediad at gynnwys cyfreithiol. Mae'r mesurau hyn yn sail i'n hargymhellion eraill ac yn galluogi targedu ein mesurau diogelwch eraill i amddiffyn plant trwy eu hatal rhag bod yn agored i gynnwys niweidiol.

Cymedroli cynnwys ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr

- 2.21 Rydym yn nodi wyth mesur Cymedroli Cynnwys ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod gan bob darparwr brosesau cymedroli ar waith i adolygu, asesu a chymryd camau cyflym ar gynnwys niweidiol. Byddant hefyd yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau mawr neu aml-risg wedi'u cyfarparu i gymedroli cynnwys niweidiol ar raddfa. Bydd y mesurau hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn dod ar draws cynnwys niweidiol ar wasanaethau o'r fath, gan arwain at gynnydd mewn diogelwch i blant ar-lein. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r mesurau ar gyfer darparwyr gwasanaethau na allant gymryd camau ar gynnwys a nodwyd fel niweidiol.

Cymedroli chwilio:

- 2.22 Rydym yn cynnwys saith mesur Cymedroli Chwilio sy'n anelu at leihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn dod ar draws cynnwys niweidiol ar neu drwy wasanaethau chwilio. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod gan bob darparwr chwilio prosesau ar waith i adolygu, asesu a chymryd camau cymedroli priodol ar gynnwys niweidiol. Yn ogystal, mae'r mesur 'chwilio diogel' ar gyfer darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr yn anelu sicrhau amddiffyniadau uwch i ddefnyddwyr sy'n cael eu penderfynu fod yn blant trwy argymell bod PPC yn cael ei hidlo allan o'u canlyniadau chwilio, ac na all plant ddiffodd y gosodiad hwn. Bydd y mesurau hefyd yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr neu wasanaethau chwilio aml-risg wedi'u paratoi i gymedroli cynnwys niweidiol ar raddfa fawr.

Adroddiadau defnyddwyr a chwynion

- 2.23 Rydym yn nodi 14 o fesurau Adrodd a Chwyno sydd wedi'u cynllunio i wneud prosesau gwasanaethau'n haws i'w cyrchu a'u defnyddio, cynyddu tryloywder, a sicrhau bod darparwyr yn cymryd camau priodol mewn ymateb i gwynion ac apeliadau. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod gan wasanaethau brosesau cwyno effeithiol, a fydd yn eu helpu i gymryd camau i amddiffyn plant rhag dod ar draws cynnwys niweidiol a gwella unrhyw systemau y maen nhw'n eu defnyddio i ganfod cynnwys niweidiol. Bydd hyn yn sicrhau bod darparwyr yn gallu gwneud eu gwasanaethau'n fwy diogel i blant a'u bod yn parchu hawliau defnyddwyr.

Systemau argymell ar wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:

- 2.24 Rydym yn cynnwys tri mesur System Argymell ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr. Mae'r mesurau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddylunio a gweithredu eu systemau argymell gan ddefnyddio dull rhagofalus. Mae hyn yn golygu amddiffyn plant rhag cynnwys sy'n cael ei nodi a allai fod yn niweidiol, yn hytrach nag aros i gynnwys cael ei gadarnhau i fod yn niweidiol trwy gymedroli cynnwys. Bydd un o'r mesurau hyn hefyd yn rhoi mwy o reolaeth i blant dros y cynnwys ac argymell iddynt. Bydd y mesurau hyn yn gweithio i leihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn dod ar draws cynnwys niweidiol ar eu ffrydiau.

Cymorth defnyddiwr

- 2.25 Rydym yn cynnwys chwe mesur Cymorth i Ddefnyddwyr ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ac un mesur ar gyfer peiriannau chwilio. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau bod plant yn cael offer i'w galluogi i gael mwy o reolaeth dros eu profiadau ar-lein a chael mynediad at wybodaeth i'w cefnogi trwy gydol eu teithiau defnyddiwr. Bydd y mesurau hyn yn rhoi mwy o ddewis i blant am eu rhyngweithio ar-lein ac yn darparu cymorth ychwanegol i'w cadw'n ddiogel ar-lein.

Nodweddion chwilio, swyddogaethau, a chymorth i ddefnyddwyr

- 2.26 Rydym wedi nodi dau fesur arall ar gyfer gwasanaethau chwilio cyffredinol mawr. Nod y cyntaf o'r rhain yw sicrhau bod darparwyr yn ymgorffori diogelwch yn y dyluniad o swyddogaethau chwilio rhagfynegol trwy gynnig modd i ddefnyddwyr adrodd yn hawdd am awgrymiadau chwilio a allai fod yn niweidiol a chymryd camau i sicrhau nad yw awgrymiadau peryglus yn cael eu hargymell mwyach. Nod yr ail fesur yw lleihau'r risg y bydd plant yn dod ar draws cynnwys hunanladdiad, hunan-niweidio neu gynnwys anhwylder bwyta mewn canlyniadau chwilio ac i liniaru'r risg o niwed difrifol iawn i blant yn y cyd-destun hwnnw drwy ddarparu adnoddau cymorth perthnasol.
- 2.27 Mae'r mesurau hyn wedi'u nodi yn ein dogfen Cipolwg ar y Codau hygrych.

Sut rydym yn penderfynu pa wasanaethau ddylai weithredu pob mesur

- 2.28 Wrth argymhell mesurau, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau bod rheoleiddio'n gymesur. Rydym yn cydnabod bod maint, galluedd a risgiau gwasanaethau yn amrywio'n fawr ac rydym wedi ystyried hyn yn ein hasesiadau effaith. Rydym wedi argymhell gwahanol fesurau ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau, gyda'r disgwyliadau mwyaf helaeth yn berthnasol i'r gwasanaethau mwyaf peryglus. Mae disgwyl hefyd i wasanaethau bach sy'n peri risg uchel i blant gymryd ystod eang o fesurau i fynd i'r afael â'r risg o niwed i blant.
- 2.29 O ganlyniad, rydym yn argymhell bod yr holl wasanaethau y mae plant yn cael mynediad iddynt – beth bynnag fo'u maint neu risg – yn gweithredu set graidd o fesurau i amddiffyn plant ar-lein. Rydym yn argymhell mesurau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau sy'n peri mwy o risg o niwed i blant, waeth beth fo'u maint, a mesurau costus ar gyfer gwasanaethau llai dim ond lle mae risg amlwg o niwed a lle mae gennym dystiolaeth y bydd y mesurau'n gwneud gwahaniaeth sylweddol wrth ymdrin â'r risg hon. Bydd disgwyl i wasanaethau mwy gyda gwell adnoddau sy'n peri'r risgiau mwyaf materol i lawer o blant fynd hyd yn oed ymhellach.
- 2.30 Mae hyn yn golygu'n ymarferol bod pob mesur yn cael ei argymhell yn y pen draw yn seiliedig ar feini prawf perthnasol, sy'n cynnwys:
- y math o wasanaeth, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng defnyddiwr-neu-ddefnyddiwr a pheiriannau chwilio lle bo'n briodol;
 - canlyniad asesiad risg plant diweddaraf y gwasanaeth, a pha risgiau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â chynnwys sy'n niweidiol i blant; a

- swyddogaethau perthnasol a nodweddion eraill gwasanaeth y dangoswyd ei fod yn peri risgiau i blant; a
- maint gwasanaeth, o ran ei sylfaen defnyddwyr yn y DU: gwasanaeth 'mawr' yw un sydd â sylfaen defnyddwyr cyfartalog o fwy na saith miliwn y mis yn y DU, sy'n cyfateb yn fras i 10% o boblogaeth y DU.

3. Yr hyn yr ydym wedi ei gyhoeddi

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys chwe chyfrol sy'n nodi ein dadansoddiad a'r dull a ddefnyddiwyd gennym. Rydym yn darparu trosolwg isod er hwylustod

Cyfrol 1: Trosolwg, cwmpas a dull rheoleiddio

Mae Cyfrol 1 yn nodi cwmpas y datganiad, gan gynnwys cyflwyniad i'n dyletswyddau a'n swyddogaethau diogelwch ar-lein a dyletswyddau diogelwch plant, a'n dull rheoleiddio.

Cyfrol 2: Achosion ac effeithiau niwed ar-lein i blant

Mae Cyfrol 2 yn cyflwyno ein hymagwedd at dri chynnyrch rheoleiddiol: ein Cofrestr Risgiau Plant, ein Proffiliau Risg Plant, a'n Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant

Cyfrol 3: Asesu'r risgiau o niwed i blant ar-lein

Mae Cyfrol 3 yn nodi ein hymagwedd at lywodraethu a rheoli risg ar draws y datganiad hwn ac yn ogystal â'n hymagwedd at y canllawiau y mae'n ofynnol i ni eu cynhyrchu ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n cwblhau asesiadau risg plant. Cyhoeddir ein Canllawiau Asesu Risg Plant ar wahân

Cyfrol 4: Beth ddylai gwasanaethau ei wneud i liniaru'r risg o niwed ar-lein i blant?

Mae Cyfrol 4 yn egluro'r mesurau yr ydym yn argymhell y dylai gwasanaethau eu cymryd i gadw plant yn ddiogel ar-lein. Mae'r mesurau hyn yn ffurfio ein Codau, a gyhoeddir ar wahân ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr ac ar gyfer gwasanaethau chwilio.

Cyfrol 5: Atodiadau

Mae Cyfrol 5 yn cynnwys manylion y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn ein hasesiad economaidd, ein fframwaith cyfreithiol, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, ein crynodeb o fesurau ychwanegol a gynigiwyd gan randdeiliaid, a'n geirfa.

Cyfrol 6

Yn nodi ein cynnig i ddiwygio Mesurau ICU J1 (blocio a thewi) ac ICU J2 (sylwadau anablu) yn y Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon, gan ddod â darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr llai penodol y mae plant yn debygol o gael mynediad atynt o fewn cwmpas y mesurau hyn lle mae ganddynt risgiau a swyddogaethau perthnasol.

Rydym yn cynnig y dylai darparwyr naill ai ddefnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol i gynnig y dewis i ddefnyddwyr sy'n blant i rwystro a thawelu defnyddwyr eraill ac analluogi sylwadau ar eu

cynnwys neu y dylent gynnig y rheolaethau hyn i bob defnyddiwr ar y rhannau o'r gwasanaeth sy'n hygyrch i blant.

Rydym yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid ar y cynigion hyn erbyn **22 Gorffennaf 2025**.